Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Tai Amlfeddiannaeth Adeddf Tai 2004 Rhybudd Cyhoeddus am y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Tai Amlfeddiannaeth Adeddf Tai 2004: Rhybudd Cyhoeddus am y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol

## Rhybudd Cyhoeddus

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir Ddinbych ar 21$^{ain}$ Hydref 2025 wedi dynodi cynllun trwyddedu ychwanegol mewn perthynas â Thai Amlfeddiannaeth trwy gydol y Sir gyfan. Gelwir y cynllun hwn yn Gynllun Trwyddedu Ychwanegol (Tai Amlfeddiannaeth) Cyngor Sir Ddinbych 2025 ("Y Cynllun"). Mae'r dynodiad yn unol â Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006.

Mae'r Cynllun y mae'r dynodiad yn berthnasol iddo wedi cael Cymeradwyaeth Cyffredinol Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Tai 2004 (Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth Cymru) Cymeradwyaeth Cyffredinol 2007 a ddaeth i rym 13$^{eg}$ Mawrth 2007. Felly, yn rhinwedd Adran 58 isadrannau (1) (b) a (7) nid oes angen cadarnhau'r dynodiad a daw i rym ar ddyddiad sydd wedi'i nodi yn y Dynodiad. Bydd y Cynllun yn gweithio ynghyd a Chynllun Trwyddedu Gorfodol Tai Amlfeddiannaeth yr Awdurdod Lleol a ddaeth i rym ar 30 Mehefin 2006. Daw'r Cynllun i rym ar 1$^{af}$ Chwefror 2026 ac os na fydd wedi'i ddiddymu cyn hynny neu ei ymestyn fe ddaw i ben ar 31$^{ain}$ Ionawr 2031.

Mae'r Cynllun yn cynnwys yr holl Dai Amlfeddiannaeth yn yr ardal sydd wedi'i nodi uchod ac y bydd yn cynnwys tai sy'n cwrdd â’r holl feini prawf o fewn y naill neu'r llall o’r ddau gategori canlynol:

(a) Unrhyw fath o Dŷ Amlfeddiannaeth a ddiffinnir gan Adran 254 o Ddeddf Tai 2004 nad yw'r cynllun trwyddedu gorfodol yn gymwys iddo, a feddiannir gan dri neu fwy o bobl sydd wedi'u rhannu'n ddwy aelwyd neu fwy.

(b) Tai Amlfeddiannaeth a ddiffinnir o fewn cwmpas Adran 257 Ddeddf Tai 2004; Tai Amlfeddiannaeth a grëwyd trwy addasu adeiladau'n fflatiau, ond nad ydynt yn cwrdd â Rheoliadau Adeiladu 1991 ac sydd heb eu gwella'n unol a’r safonau perthnasol ers hynny.

Ni fydd y Cynllun yn cynnwys Tai Amlfeddiannaeth sydd wedi'u heithrio gan adrannau perthnasol o'r Ddeddf a’r rhai sydd eisoes wedi'u trwyddedu dan y Cynllun Trwyddedu Gorfodol Tai Amlfeddiannaeth.

# Tai Amlfeddiannaeth Adeddf Tai 2004: Rhybudd Cyhoeddus am y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol

Dylai pob landlord sydd yn berchennog ag eiddo yn yr ardal sydd wedi'i henwi ac sydd yn disgyn o fewn un o'r meini prawf uchod gwneud cais am drwydded. Codir Ffioedd ac Amodau i gyd fynd â’r Cynllun. Bydd methiant i wneud cais am drwydded pan fo angen yn drosedd o dan Adran 72 o Ddeddf Tai 2004. Mae person sy'n cyflawni tramgwydd yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy ddiderfyn. Dylai pob perchennog, landlord neu asiant yn yr ardal sydd wedi'i henwi, ofyn cyngor yr Awdurdod Lleol ynglŷn â Thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth. Er mwyn i gais gael ei ystyried, rhaid darparu manylion rhagnodedig a'r tal gofynnol.

Mae ffurflenni gais ar gael o:

**Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad (Gorfodaeth Tai), Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ.**

Neu, anfonwch e-bost at:envhealth@denbighshire.gov.uk

I gael mwy o wybodaeth am y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol gan gynnwys ffioedd ac amodau trwyddedu agorwch https://www.sirddinbych.gov.uk/ neu cysylltwch â Gwarchod Y Cyhoedd (Gorfodaeth Tai) ar y rhif ffôn: **01824 706389.**